

DAVIES, JOHN (1860 - 1939), llyfryddwr ac achyddwr Cymreig

Enw: John Davies
Dyddiad geni: 1860
Dyddiad marw: 1939
Priod: Margaret Davies (née Thomas)
Rhiant: Mary Davies
Rhiant: John William Davies
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: llyfryddwr ac achyddwr Cymreig
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Gildas Tibbott

Ganwyd 7 Awst 1860 yn Llundain-fach, Llandysul, Sir Aberteifi, mab John William a Mary Davies. Addysgwyd ef yn ysgol genedlaethol Capel Dewi ac yn ysgol **Eilir**, Llandysul. Bu'n gweithio ar fferm yn yr ardal ac yna fel glowr yn y Maerdy, Rhondda. Wedi dioddef effeithiau nwy yn nhanchwa 1889 ymsefydlodd fel masnachwr esgidiau a chloccsiau yn Llanbedr-Pont-Steffan. Oherwydd ei ddi-ddordeb dwfn mewn llyfrau Cymraeg ac mewn achyddiaeth, yn enwedig achau teuluoedd Ceredigion a gorllewin Cymru, penodwyd ef yn 1908 ar staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a oedd newydd ei sefydlu, a bu yno hyd oni ymneilltuodd yn 1927. Gyda'r ystôr enfawr o wybodaeth achyddol a llyfryddol a gasglasai'r gŵr hunan-ddiwylliedig hwn bu'n abl, yn y blynyddoedd cynharaf, i roddi cymorth gwerthfawr i ymchwilwyr yn y meysydd hynny. Hefyd cynorthwyodd **Syr John Williams**, y **prifathro J. H. Davies**, a llyfryddwyr eraill, i sicrhau i'w llyfrgelloedd, sydd bellach ymhlith casgliadau sylfaenol y Llyfrgell Genedlaethol, lyfrau printiedig gwerthfawr; efe ei hun a brynodd rai ohonynt mewn arwerthiannau gwledig. Yn ddiweddarach paratodd restrri disgrifiadol o filoedd lawer o weithredoedd a dogfennau eraill yng nghasgliadau'r Llyfrgell Genedlaethol.

Priododd John Davies, 1890, Margaret, merch John Thomas, Glantroiddyn, Caio, Sir Gaerfyrddin, a bu iddo fab a merch. Yr oedd yn aelod o'r Eglwys yng Nghymru. Bu farw yn Aberystwyth, 23 Mehefin 1939, a'i gladdu yng ngladdfa Aberystwyth.

Efe oedd awdur *Rhestr o Lyfrau argraffedig yng Nghaerfyrddin gan John Ross rhwng y blynyddoedd 1763 a 1807* (Caerfyrddin, 1916). Mewn cydymgyngoriad â Mrs. Lucy E. Lloyd Theakston cyfansoddodd a golygodd *Some Pedigrees of the Lloyds of Allt yr Odyn, Castell Hywel, Ffos y Bleiddiaid, Gilfach Wen, Llan Llyr and Waun Ifor* (Oxford, 1912). Efe hefyd a drefnodd i'w gyhoeddi gynnwys *Rhestr Eisteddfodau hyd y flwyddyn 1901 gyda nodiadau ar amryw ohonynt* (Llandysul, 1914), sef defnyddiau a gasglasai **D. M. Richards**, Aberdâr, dros nifer o flynyddoedd ond y methodd âu trefnu a'u cyhoeddi cyn ei farw yn 1913. Yn 1927 cyhoeddodd adargraffiad (50 copi, argraffedig yn Aberystwyth gan John Jones) o *Myfyrdod ar Einioes ac Angeu...* (Caerfyrddin, 1798), cyfieithiad **David Davis**, Castell Hywel, o *Elegy Written in a Country Churchyard* Thomas Gray.

Y mae nifer o'i lawysgrifau ynghadw yn y Llyfrgell Genedlaethol. Yn eu plith y mae mynegai i awduron *Cymru (O.M.E.)* (**NLW MS 6042D**); traethawd (buddugol yn yr eisteddfod genedlaethol, Aberystwyth, 1916) ar 'Lenorion Sir Aberteifi; braslun o'u hanes a rhestr gyflawn o'u gweithiau cyhoeddedig rhwng 1600 a 1900' (**NLW MS 8705D**); traethodau - 'Ymchwilliad Hynafiaethol a Thraddodiadol am Ellen Wyn o Ddyffrynlynod ynghyd a Theuly y Wyniaid Plwyf Llandysul,' 1900, a 'Hen Feirdd Plwyf Llandysul,' 1906 (**NLW MS 8710E**); adysgrifau o gofrestr plwyfi Llanbedr-Pont-Steffan, Cellan, Llanddewi-brefi, a Llanddewi Abergwessin (**NLW MSS 704-7**); casgliad o ffugenwau nas cynhwysir yn yr atodiad i *Cardiff Free Libraries: Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, 1898* (**NLW MS 8714A**); a llawer o achau a nodiadau achyddol.

Awdur

Gildas Tibbott, (1900 - 1979)

Ffynonellau

Hysbysiadau yn y Wasg, adnabyddiaeth bersonol, a gwybodaeth a gafwyd gan berthnasau

Dolenni Ychwanegol

Archifau LIGC: **John Davies Manuscripts**

VIAF: **307428083**

Wikidata: **Q20733381**

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Preifatrwydd a Chwciis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiolch i
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government